
Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynadledda drwy Zoom P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 23 Hydref 2023 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

O bell – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.40 – 13.45)

4.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023

(Tudalennau 1 – 4)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-29-23 – Papur 19 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 19 Hydref 2023

LJC(6)-29-23 – Papur 20 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 19 Hydref 2023

4.4 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

(Tudalennau 5 – 6)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-29-23 – Papur 21 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Hydref 2023



5 Papurau i'w nodi

(13.45 – 13.50)

5.6 Gohebiaeth rhwng Gweinidog yr Economi a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd â Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

(Tudalennau 7 – 10)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-29-23 – Papur 22 – Llythyr gan Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Hydref 2023

LJC(6)-29-23 – Papur 23 – Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 19 Medi 2023

5.7 Gohebiaeth gan Anabledd Cymru: Cyllideb Llywodraeth Cymru 2024–25

(Tudalennau 11 – 13)

[Prin yn Goroesi: Effaith yr Argyfwng Costau Byw ar Bobl Anabl yng Nghymru](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-29-23 – Papur 24 – Llythyr gan Anabledd Cymru, 19 Hydref 2023
[Saesneg yn unig]

5.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni y DU

(Tudalennau 14 – 15)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-29-23 – Papur 25 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 20 Hydref 2023

5.9 Gohebiaeth gyda Phrif Weinidog Cymru: Craffu ar waith Gweinidogion

(Tudalennau 16 – 24)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-29-23 – Papur 26 – Llythyr gan Brief Weinidog Cymru, 20 Hydref 2023
[Saesneg yn unig]

LJC(6)-29-23 – Papur 27 – Llythyr at Brif Weinidog Cymru, 29 Medi 2023

8 Blaenraglen Waith

(14.05 – 14.15)

(Tudalennau 25 – 28)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-29-23 – Papur 17 – Papur Blaenraglen Waith [Saesneg yn unig]

9 Adroddiad Blynyddol

(14.15 – 14.25)

(Tudalennau 29 – 79)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-29-23 – Papur 18 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-29-23 – Papur 28 – Egwyddorion drafft ar gyfer deddfu drwy Filiau'r DU [Saesneg yn unig]

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Huw Irranca-Davies MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee

SeneddLJC@senedd.wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

19 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch chi dyddiedig 5 Medi. Ysgrifennaf atoch i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023 mewn perthynas â Chymru.

Mae'r OS hwn yn diwygio Rheoliad (UE) 2019/1021 a ddargedwir gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion Organig Parhaus (ail-lunio) (y "Rheoliad POPs"). Bydd y diwygiad yn ychwanegu asid perfluorohexane sylffonig ("PFHxS"), ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS i'r rhestr o sylweddau y gwaherddir eu gweithgynhyrchu, eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio o dan y Rheoliad POPs. Mae hefyd yn gosod gwerthoedd terfyn ar gyfer PFHxS, ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS sy'n digwydd fel halogydd olrhain anfwriadol mewn sylweddau, cymysgeddau ac eitemau.

Diben y Rheoliadau yw gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n cael eu gosod ar y DU drwy newidiadau i Gonfensiwn Stockholm ar POPs sy'n dod i rym ar 16 Tachwedd.

Mae'r OS hwn wedi cael ei wneud o dan Erthyglau 15(1) a 18(1) o'r Rheoliad POPs ac mae'n amodol ar weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Gwnaed a gosodwyd yr OS gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023, gan anelu at ddyddiad cychwyn o 16 Tachwedd 2023 er mwyn bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 1

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i gynnwys y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth rhwng polsiau Llywodraeth Cymru a'r DU ar y mater hwn. Mae'r Rheoliad POPs, sy'n cael ei ddiwygio, yn Rheoliad sy'n gymwys ar draws Prydain Fawr, felly ni ellid gwneud unrhyw ddiwygiadau iddo yn yr iaith Gymraeg.

Mae gwneud y diwygiadau hyn drwy OS fydd yn diwygio'r rheoliadau ar draws Prydain Fawr yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, a bydd y rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Yn fy marn i, nid deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu newidiadau angenrheidiol na defnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023

DYDDIAD 19 Hydref 2023

GAN Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno gwybod fy mod wedi rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023 wedi'u gosod gerbron Senedd y DU gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol wrth arfer pwerau o dan Erthyglau 15(1) a 18(1) o Reoliad (UE) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion organig parhaus (ail-lunio) ("Rheoliad POPs"). Gwnaed hyn i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n cael eu gosod ar y DU drwy newidiadau i Gonfensiwn Stockholm ar POPs a ddaeth i rym ar 16 Tachwedd.

Mae'r OS hwn yn diwygio'r Rheoliad POPs. Bydd y digwyddiad yn ychwanegu asid perfluorohexane sylffonig ("PFHxS"), ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS i'r rhestr o sylweddau y gwaherddir eu gweithgynhyrchu, eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio o dan y Rheoliad POPs. Mae hefyd yn gosod gwerthoedd terfyn ar gyfer PFHxS, ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS sy'n digwydd fel halogydd olrhain anfwriadol mewn sylweddau, cymysgeddau ac eitemau.

Nid yw Gweinidogion Cymru yn cynnig cyflwyno OS Cymraeg cyfatebol gan fod y Rheoliad sy'n cael ei ddiwygio yn gymwys ar draws Prydain Fawr, felly rhaid i unrhyw ddiwygiadau iddo fod yn Saesneg yn unig.

Yr effaith y gall yr offeryn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:

Nid yw'r Rheoliadau drafft yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd. Ni all yr Ysgrifennydd Gwladol ond arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru heb gydsyniad yn achos pwerau a gadwyd yn ôl. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru mewn materion datganoledig yn unig, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision o gydweithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydlynu trawslywodraethol a chysondeb.

Gosodwyd y Rheoliadau drafft gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023, gyda'r nod o ddod i rym ar 16 Tachwedd 2023.



Ein cyf/Our ref CG/PO/358/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

19 Hydref 2023

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi y cafodd cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder ei gynnal ar 12 Medi.

Rwyf o'r farn bod sefydlu'r grŵp hwn, a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys ynddo, yn gydnabyddiaeth bwysig bod y dirwedd gyfiawnder yng Nghymru yn wahanol i'r dirwedd yn Lloegr. Mae angen ystyried ei anghenion ar wahân felly, yn ogystal â sicrhau bod yr un arwyddocâd â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig yn cael ei rhoi iddi.

Cadeiriwyd y cyfarfod rhithwir gan yr Arglwydd Bellamy KC, gyda Llywodraeth y DU hefyd yn cael ei chynrychioli gan y Gwir Anrh David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cynrychiolwyd Llywodraeth yr Alban gan Angela Constance ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder a Materion Cartref, a chynrychiolais i Lywodraeth Cymru.

Yn absenoldeb gweinidogion Gogledd Iwerddon, roedd Richard Pengelly, Ysgrifennydd Parhaol Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon yn bresennol ar ran Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon.

Mae datganiad sy'n crynhoi trafodaethau'r cyfarfod wedi'i gyhoeddi. Gellir dod o hyd iddo [yma](#). Ymhlith y pwyntiau a godais i oedd awgrym y dylai'r grŵp edrych yn benodol ar gyfraddau aildroseddu; pryderon ynghylch gwahaniaethau ethnig ym mhoblogaeth carchardai; argaeledd data defnyddiol, yn enwedig o ran Cymru; y materion yn ymwneud â chydaddoldeb mynediad a all godi yn sgil newid prosesau cyfiawnder yn rhai digidol, er enghraifft yn y llysoedd; a'r angen am welliannau i Fil Dioddefwyr a Charcharorion Llywodraeth y DU, sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

Agorwyd y cyfarfod gyda chytundeb ynglŷn â Chylch Gorchwyl y grŵp sydd wedi'i gyhoeddi [yma](#).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ymhen ryw bedwar mis. Unwaith y bydd wedi'i drefnu, byddaf yn rhoi gwybod ichi.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style. Below the name, there is a short horizontal line.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
SeneddEconomy@Senedd.Wales

13 Hydref 2023

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Medi 2023 yn gofyn am atebion i gwestiynau ynghylch Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

Yn abteb i cwestiynau 1 a 2, rydym yn cydnabod na wnaeth y Senedd roi ei chydsyniad i Ddeddf REUL ond gan fod Gweinidogion Cymru bellach yn gyfrifol am swyddogaethau gweithredol perthnasol, byddwn yn arfer y swyddogaethau hynny mewn ffordd gyfrifol.

Mae Gweinidogion Cymru wrthi'n ystyried canlyniadau'r pwerau newydd y mae'r Ddeddf yn eu rhoi i Weinidogion Cymru gan ddatblygu cynlluniau yn unol â hynny. Rydym yn gweithio gyda'n cyd-weinidogion yn Llywodraeth y DU i ddeall eu bwriad ac unrhyw oblygiadau y gallai eu cynlluniau esgor arnynt ac effeithio ar Gymru. Nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau hyn i wneud newid arwyddocaol i'n polisi.

Wrth ymateb i Ddeddf REUL Llywodraeth y DU, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw ganolbwyntio ar faterion sydd wedi'u datganoli yng Nghymru sy'n codi yn sgil rhoi Deddf REUL ar waith. Nid ydym wedi creu mecanwaith cyffredinol i fynd i'r afael ag offerynnau sy'n ymwneud â materion o gymhwysedd a gedwir yn ôl yng Nghymru. Byddwn yn cadw golwg ar offerynnau o'r fath ac yn ymdrin â'r goblygiadau i faterion y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt yn ôl y gofyn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 7

Yn ateb i cwestiwn 3, ni nodwyd unrhyw offerynnau sy'n peri gofid ac sy'n gofyn i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau i'w cadw, i'r graddau eu bod yn ymwneud â meysydd datganoledig.

Yn gywir,



Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd
Cymru, a'r Trefnydd

19 Medi 2023

Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

Annwyl Vaughan a Lesley,

Yn ei gyfarfod ar 13 Medi, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 a chytunodd i ysgrifennu atoch i ofyn am y wybodaeth a ganlyn;

- A oes unrhyw gynlluniau'n cael eu datblygu i ddefnyddio'r pwerau newydd y mae'r Ddeddf newydd yn eu rhoi i Weinidogion Cymru;
- A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau gan Lywodraeth y DU i ddefnyddio'r pwerau newydd mewn meysydd datganoledig, neu mewn meysydd a gadwyd yn ôl a fydd yn effeithio ar Gymru; ac
- A wnewch chi rannu copi o ddadansoddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o gyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 ac sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Dear Legislation, Justice and Constitution Committee,

We are writing to you to express the importance of including specific financial support for disabled people in the upcoming 2024-2025 budget.

We have all felt the effects of the cost-of-living crisis, but we have not all experienced it equally. We have found that there are disabled people across Wales, forced to live in awful circumstances due to the twin problems of poverty and the cost-of-living crisis. A fifth of the population of Wales is disabled¹ and households containing at least one disabled person is more likely to be living in poverty,² disabled people are more likely to be economically inactive or if in work, that work is more likely to be insecure and low wage.³ Poverty has long been a problem for disabled people living in Wales, but the rising cost-of-living is forcing people into worse and worse circumstances.

The 2023-2024 budget did not provide specific support for disabled people during the crisis and our findings from our report “Barely Surviving the impact of the cost-of-living crisis on disabled people” displays some of the consequences. We found that the financial support available was short-sighted, the cost-of-living payments supporting people to pay one month of bills, but nothing beyond. Disabled people often have more essential costs than non-disabled people, this extra cost of disability has not been accounted for, beyond the support already available.

The consequences are severe. Disabled people reported only being able to eat one meal a day, having to let go of support workers or stop going to vital therapies because of cost, being unable to run access equipment due to costs, in some cases losing their lives.

These have been difficult years to be a disabled person in Wales. We have been living through a mass-disabling coronavirus pandemic, in

¹ Office of National Statistics, Census 2021, “Disability, England and Wales: Census 2021”, 19th January 2023, <<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#how-disability-varied-across-england-and-wales>>

² Joseph Roundtree Foundation, “UK Poverty 2023 – The essential guide to understanding poverty in the UK”, 20th January (2023), p65, <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/uk_poverty_2023_-_the_essential_guide_to_understanding_poverty_in_the_uk_0_0.pdf>

³ Department for Work and Pensions, “Employment of disabled people 2022”, UK Government, 26th January (2023), <https://www.gov.uk/government/statistics/the-employment-of-disabled-people-2022/employment-of-disabled-people2022#labour-market-stat>

which disabled people have been disproportionately harmed. Disabled people have disproportionately been impacted by over a decade of austerity policies and with severe changes to their benefit entitlement from the UK Government, this period of financial uncertainty and continued poverty does not look likely to change.

We are calling for the Budget to include a series of recommendations and for certain questions to be asked of what we need and what is missing.

- The Welsh Government, health services and local authorities in Wales should provide specific support for the running and maintenance of disability related equipment, to ensure that all disabled people are not financially impacted by their need to use certain equipment.
- Welsh Government to urgently review its policy on social care charges, including whether the disregards for disability related expenditure are adequately protecting disabled people on low incomes with high costs.
- Urgent action to recognise and tackle mental health issues amongst disabled people, including pathways to accessing appropriate mental health support whether from social care, other areas of the health service and/or through peer support, such as from disabled people's organisations.
- Food subsidies should be considered to reduce the cost of food in shops. To supplement this, the Welsh Government and Local Authorities should provide support to and nurture the creation of community food schemes. These schemes should include accommodation for dietary requirements and include options for access requirements.
- Public transport, such as buses and trains, should be taken under public ownership to be delivered as a public service, including measures such as reduced ticket prices with the eventual goal to make public transport in Wales free.
- Provision of resources and capacity building measures to ensure the establishment and sustainability of at least one Disabled People's Organisation in every local authority, to support

coproduction of policies and services with public bodies, including peer support schemes for disabled people

- Commitment from the Welsh Government to prioritise tackling the extra cost of disability

You can find our full report here: <https://www.disabilitywales.org/wp-content/uploads/2023/07/Barely-Surviving-cost-of-living-report.pdf>

Kind regards,

Disability Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/357/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni y DU.

Fel yr wyf wedi nodi mewn gohebiaeth ddiweddar atoch ac fel ddywedais yn y Senedd yn ystod y ddadl ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rwy'n gwerthfawrogi'n llawn yr heriau y mae'r Bil hwn wedi'u creu o ran craffu effeithiol gan y Senedd. Fodd bynnag, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein deddfwrfa yn cael y cyfle i graffu'n briodol ar ddeddfwriaeth y DU sy'n ddarostyngedig i gonfensiwn Sewel ac sydd angen cydsyniad y Senedd.

Mae'n ddefnyddiol ystyried eto ddatblygiad cynnar Bil Ynni y DU. Er i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2022, cafodd gwaith o fewn Llywodraeth y DU ar y Bil ei atal yn gyflym tra bod yr adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y pryd yn ymateb i argyfwng prisiau ynni'r DU. Cafodd tîm Biliau Llywodraeth y DU ei ddiddymu i bob pwrpas i gyflwyno Bil Prisiau Ynni y DU. Roedd ein trefniadau yn Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r rhai yn Llywodraeth y DU gydag adnoddau pwrpasol i'r Bil newydd hwnnw. Roedd hyn yn hanfodol i gefnogi'r pecynnau ariannol ar gyfer cartrefi a busnesau yn ystod gaeaf 2022/23.

Fel y dywedais yn y Senedd, rydym bob amser yn ymdrechu i gyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cyn gynted â phosibl yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Er y gellid bod wedi gosod rhyw fath o Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn yr hydref, roedd yn amlwg bod agweddau allweddol o'r Bil yn parhau i fod yn ansicr, ac oherwydd hynny ni fyddai unrhyw Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ei hun wedi gallu mynegi ein safbwynt yn glir, na gofynion y Rheolau Sefydlog. Fel y dywedais ar sawl achlysur, ni welsom y Bil tan y noson cyn iddo gael ei gyhoeddi ac ychydig iawn o waith ar y cyd oedd ar fanylion polisi'r Bil, a dim ystyriaethau polisi ar y cyd o'r Bil yn ei gyfanrwydd tan ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. Roedd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 14
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hyn yn golygu na ddigwyddodd y misoedd o waith polisi ar y cyd y byddem yn disgwyl ei weld ar Fil o'r fath cyn ei gyhoeddi. Dim ond ar ôl i'r Bil gael ei gyhoeddi y bu modd gwneud y gwaith ar y cyd. Dim ond wrth ddilyn y trafodaethau rhynglywodraethol a gweld y gwelliannau pellach a osodwyd gan Lywodraeth y DU oedd modd inni allu deall goblygiadau'r Bil Ynni fel y'i cyflwynwyd, a chyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cydlynol i fodloni gofynion y Rheolau Sefydlog.

Nid oedd gosod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf mor hwyr yn y broses yn sefyllfa yr oeddwn yn hapus â hi. Fodd bynnag, o sefyllfa o fod wedi cytuno ar y Bil fel y'i cyflwynwyd, roeddem yn gallu gosod tri Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i gwmpasu'r holl welliannau y cytunwyd arnynt gan gynnwys dros 150 tudalen o welliannau yn ystod cyfnod yr adroddiad a ddigwyddodd wythnos yn unig cyn ein dadl yn y Senedd. Rwyf yn gresynnu y diffyg craffu oedd yn bosibl ei wneud ar y Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol hyn, ond mae hynny'n symptom arall eto o ddull cwbl annerbyniol Llywodraeth y DU o weithio ar y Bil hwn.

Byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i newid ei dull o ymdrin â deddfwriaeth a thrafodaethau, a byddaf yn sicrhau y bydd unrhyw sefyllfaoedd yn y dyfodol fel y profiad gyda'r Bil Ynni yn cael eu cyfleu i'r Senedd yn gynnar.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

20 October 2023

Dear Huw,

Thank you for your letter dated 29 September regarding the Legislation, Justice and Constitution Committee meeting that I attended on 18 September. Please find attached a response to the questions in the Annex. An update on the referral of an issue between the Northern Ireland Executive and the UK Government to the dispute resolution process has also been provided.

Best Wishes,

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Question 1: We acknowledge your comment that the Welsh Government does not go “looking for opportunities” to use UK Bills and that you are reacting to UK Government decisions. Nevertheless, that reaction does appear to involve spotting opportunities for using UK Bills.

- We note your comments at paragraph 70 of the Record of Proceedings. However, once the UK Government’s legislative programme is published, please can you set out how this is considered in determining your overall legislative approach: your legislative programme for the Senedd, or adaptations to it, including for future years and the opportunity provided to make law outside of Wales?**
- The Welsh Government is intending to bring forward at least 8 Bills this year. What is the maximum number of Bills the Welsh Government could bring forward in an annual programme and why were there so few in the first two years?**

We cannot ignore the legislative intentions of the UK Government, which, in the current climate, represents a significant risk to Wales and to devolution. The Committee is aware of our principles for recommending consent to UK Bills. My full statement at RoP 48 should not be misconstrued. Responding reactively to potentially advantageous opportunities in UK legislation is not the same as proactively seeking opportunity to deliver our legislative objectives through UK Bills.

My statement at RoP 78 sets out that our own legislative programme, despite challenging circumstances and the need to respond to external events, is more ambitious and significant than ever before.

Our programme demonstrates our wide-ranging use of our legislative powers, and at an extensive rate. A number of the Bills that we are bringing forward are large, technical, complex proposals and the nature and content of the proposals is a relevant consideration to the timing of their introduction. The policy development process involves detailed work with a broad range of stakeholders to get the proposal right.

A significant programme of subordinate legislation sits alongside and underpins our primary legislative programme. The Committee will appreciate how broad and important subordinate legislation is. In recent years, there has been an increase in the volume, scale and complexity of such legislation and the importance of the decisions determined in this way. This has significantly increased the workload of the Executive and the legislature in recent years, both in Plenary and committees.

Therefore, there is no maximum number of Bills or items of subordinate legislation per year – the scale, complexity and length of time necessary to develop and scrutinise each Bill or statutory instrument varies considerably. What is important is ensuring the law is clear, accessible, delivers our policy ambitions and is developed with the support and engagement of stakeholders to ensure it can be implemented effectively. In sequencing our programme, we are also mindful of the capacity of the Senedd and the need to ensure that adequate time is allowed for Committees and Members to scrutinise our legislative proposals.

Question 2: The Counsel General wrote to us on 1 March 2022 and 4 August 2022 about the Welsh Government’s approach to using UK Bills to legislate in devolved areas. In the August letter he said: "In those instances where we have sought

provision, or where we are minded to agree to provision in UK Bills, I am committed to ensuring the Senedd remains informed at the earliest meaningful opportunity, rather than include information in the annual legislative statement." Please would you make a commitment that the Welsh Ministers will inform the Senedd as soon is possible that they have either sought provision in a UK Bill or are minded to accept the offer from the UK Government of the inclusion of devolved provision in a UK Bill? .We acknowledge that this need not be in the form of a legislative consent memorandum, and could precede the formal legislative consent process.

The Counsel General has already made such a commitment.

Question 3: You will know that we monitor and scrutinise intergovernmental relations. For that reason, we are interested in who initiates contact regarding the use of UK Bills for legislating in devolved areas. – Once you have spotted an opportunity to use a UK Bill, does the relevant Minister contact their counterpart to initiate discussions? – How does the Welsh Government go about requesting provisions in UK Bills (for example as happened with the Non Domestic Rating Bill)? – How does the UK Government invite you to include provisions in UK Bills?

As noted during our discussions and as the Counsel General has consistently highlighted to the Committee, it is not the case that Welsh Government would proactively approach UK Government to legislative on our behalf.

The Counsel General and the Minister for Finance and Local Government have been clear with the Committee on the situation with the Non-Domestic Rating Bill. UK Government invited us to explore provision with them ahead of the Bill's introduction.

Question 4: When Ministers are making decisions on whether to recommend to the Senedd that it should consent to the use of a UK Bill, can you set out the criteria that are used to decide whether using a UK Bill to make legislation in a devolved area is more "sensible and advantageous" than passing legislation in the Senedd?

The final decision on recommending consent to a UK Bill typically involves consideration of a range of constitutional, policy, political and other factors.

Our principles are applied in the context of often complex and fluid negotiations and it will sometimes be necessary to consider the possibility of compromises in order to secure our most important policy objectives. We approach our recommendations in terms of maximising the outcomes for the people of Wales in line with our priorities.

It is then for Members to decide whether or not to accept the reasoning put forward by Government.

Question 5: Who in the Welsh Government makes the decision on whether to recommend to the Senedd that it should consent to provisions being made in devolved areas in UK Bills? Do you have oversight of final decisions?

All decisions made by the Welsh Government are made on behalf of the whole Welsh Government and are owned collectively by all Ministers.

Question 6: How many times has the Welsh Government declined to be involved in a Bill following an invitation from the UK Government on grounds that it would be more appropriate for the Senedd to legislate? Please would you provide the details of each occasion.

It is simply not possible to reduce this information to a specific number. Evaluation of UK Bills includes consideration of whether it might be more appropriate for the Senedd to legislate, alongside a range of constitutional, policy, political and other factors.

Question 7: In your evidence you said that, when speaking about the UK Government legislating, "sometimes, in the things they decide to do, there will be an opportunity that would benefit people in Wales, and where the prospects of a Bill coming in front of the Senedd are reasonably remote."

- Why do you consider it appropriate that the initial decision of what would benefit the people of Wales should rest solely with the Welsh Government and accordingly deny the Senedd a role until the end of the process, when all it has is a take or leave it vote?**
- Using a UK Bill to legislate for Wales in devolved areas means by-passing detailed Senedd scrutiny. Why is denying the Senedd its proper law-making role, including the decision on whether to delegate regulation-making powers to the Welsh Ministers, appropriate and how could that be regarded as "sensible and advantageous"?**
- Why would the prospects of a Bill coming in front of the Senedd be "reasonably remote", particularly when they concern priorities for the Welsh Government, e.g. animal welfare, nondomestic rating, protection from sex-based harassment in public?.**

The Welsh Government operates within the established legislative and Standing Order arrangements. It is entirely appropriate for the Government to take decisions and make recommendations to the Senedd on what it considers to be sensible and advantageous for Wales. It is then entirely open for Members and Committees to present their own positions, including through the legislative consent process.

Question 8: How will Senedd reform impact the volume of the Bills the Welsh Government would be able to bring forward in future?

Question 9: What preparations is the Welsh Government making to increase its legislative capacity for the Seventh Senedd?

The increase in the size of the Senedd and potential increase in the number of Ministers will inevitably have implications for the Welsh Government's own ways of working, including its administration and delivery in response to increased scrutiny.

The extent of the impact will depend on a number of decisions that can only be taken after the legislation is passed and in preparation for the next Senedd.

Question 10: The Committee considers non-trade international agreements, for which you frequently provide us with additional information. In your view, how are the intergovernmental mechanisms operating in the context of the development of international agreements? Are there any changes you would like to see?

International Agreements are signed across a range of policy areas, led by different UK government departments. Given the diverse nature of the agreements, to my knowledge, there is no single mechanism that creates arrangements for engagement between the UK government and the devolved governments with each lead UK department engaging with their devolved counterpart at a time and frequency of their choosing. Nor is there a central mechanism for us to understand the agreements that are being negotiated.

There are areas of good practice. For example, the Department for Business and Trade (DBT) engages with devolved governments on Trade Policy and during the negotiation of trade deals. This engagement is, in our experience, mostly positive. There is engagement at a Ministerial level, through the Trade IMG, and officials have regular contact. Early and frequent engagement has led to constructive discussions with some positive outcomes and concessions for Wales. This model is sometimes tested, particularly as negotiations edge towards endgame, where some more direct intervention is required. It is also important to note that not all of our requests have been considered during FTA negotiations but, on the whole, the model used is a positive one.

At a more strategic level, this is an area where I would look for improvements. Fundamentally, devolved governments must be fully engaged in the negotiation of any international agreement, especially those that could impact on devolved areas of policy, with engagement as early in that process as possible. There should be greater consistency in how UK government departments, including DBT, work with the devolved governments when negotiating any international agreement, and that levels of engagement should align with the expected levels of good practice.

Question 11: In the evidence session we discussed the Welsh Government's relationship with the EU and would be grateful if you could set out the Welsh Government's strategic priorities for its relationship with the EU including in relation to the implementation and review of the TCA. (RoP 98- 105).

The economic relationship between Wales and the EU is vital to us and should be enabled and enhanced by the political relationship between the UK and the EU. As I explained in my session with the Committee on 18 September, the focus and foundation of any developments of the relationship with the EU should be around recreating an economic relationship that works for both sides. The immediate focus is to ensure that the existing arrangements set out in the Trade & Co-operation Agreement work as effectively as possible, and that UK Government fully engages the Welsh Government in ensuring that, building on the Inter-Ministerial Group on UK-EU Relations. The longer-term and fuller development of a deeper economic relationship, based on a better political co-operation between the UK and the EU, will realistically only be able to take place after both the European Parliament elections and the appointment of a new European Commission in mid-2024, and after the next UK general election. I believe that there is scope to do that. As Welsh Government we will press and support the UK Government to prioritise this and to maximise the potential of the UK-EU relationship for the benefit of the people of Wales and of the rest of the UK.

Northern Ireland Executive and UK Government Dispute Resolution:

The Northern Ireland Finance Minister last year referred an issue which had arisen between the Northern Ireland Executive and the UK Government to the dispute resolution process. At this time the issue has not proceeded through the full dispute resolution process in the absence of Ministers in the Northern Ireland Executive.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Legislation, Justice and
Constitution Committee**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddDCC

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

senedd.wales/SeneddLJC

0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS,
Prif Weinidog Cymru

29 September 2023

Annwyl Mark,

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Medi 2023

Diolch eto am ddod i'n cyfarfod ar 18 Medi 2023. Rydym yn ddiolchgar am yr amser rydych wedi'i roi i'r Pwyllgor.

Fel y nodwyd ar ddiwedd y cyfarfod, mae nifer o gwestiynau yr oeddem yn awyddus i'w gofyn i chi ond nid oedd digon o amser ar eu cyfer. Hefyd, hoffem holi cwestiynau dilynol ar nifer o faterion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod. Felly, byddem yn croesawu cael ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 17 Hydref 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Dull o ddeddfu / rhaglen ddeddfwriaethol

Yn eich sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddweud:

"...where I don't have the same anxieties, is when a UK piece of legislation is brought forward where the Welsh Government believe that this would allow us to legislate more quickly and more effectively than if we were to wait for an opportunity of a Welsh-only Bill in front of the Senedd to come forward. I think those occasions are relatively rare, but they've always been there; we've used those opportunities through the whole of the period. Now, they're generally the ones where we are able to spot those opportunities earlier.

I should say this very clearly to the committee: the Welsh Government doesn't go looking for these opportunities ... we are always reacting to whatever they [UK Government] decide to do. But sometimes, in the things they decide to do, there will be an opportunity that would benefit people in Wales, and where the prospects of a Bill coming in front of the Senedd are reasonably remote. In those circumstances, I don't think we should deny ourselves that opportunity because we somehow have a belief in principle that the only time legislation should ever be made for Wales is in Wales. When we do those things, it's likely to be that there will be the longest period for the Senedd to express a view, so I think that the democratic deficit and oversight anxieties are less." [[Cofnod y Trafodion](#), paragraffau 47-48].

Mae biliau a fyddai'n ymddangos yn rhan o'r categori hwn yn ymdrin â pholisi ar yr amgylchedd, diwygio lesddaliadau, diogelwch adeiladau, lles anifeiliaid (Bil y DU na aethpwyd ar ei drywydd), amddiffyniad rhag aflonyddu ar sail rhyw yn gyhoeddus, caffael, ffyniant bro ac adfywio, ac ardrethu annomestig.

Cwestiwn 1: Rydym yn cydnabod eich sylw nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd i chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio Biliau'r DU a'ch bod yn ymateb i benderfyniadau Llywodraeth y DU. Serch hynny, mae'n ymddangos bod yr ymateb hwnnw'n cynnwys canfod cyfleoedd i ddefnyddio Biliau'r DU.

- Nodwn eich sylwadau ym mharagraff 70 o Gofnod y Trafodion. Fodd bynnag, unwaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU wedi'i chyhoeddi, a allwch chi nodi sut y caiff hyn ei ystyried wrth benderfynu ar eich dull deddfwriaethol cyffredinol: eich rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y Senedd, neu addasiadau iddi, gan gynnwys ar gyfer blynyddoedd i ddod a'r cyfle a ddarperir i wneud cyfraith y tu allan i Gymru?
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno o leiaf 8 Bil eleni. Beth yw'r nifer uchaf o Filiau y gall Llywodraeth Cymru eu cyflwyno mewn rhaglen flynyddol a pham yr oedd cyn lleied yn y ddwy flynedd gyntaf?

Cwestiwn 2: Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol atom ar [1 Mawrth 2022](#) a [4 Awst 2022](#) ynghylch dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig. Yn y llythyr ym mis Awst, dywedodd: "Yn yr achosion hynny pan fu inni geisio darpariaeth, neu pan fyddwn yn

bwriadu cytuno ar ddarpariaeth ym Miliâu'r DU, mae'n ymrwymiad gennyf sicrhau bod y Senedd yn parhau i gael ei hysbysu pan ddaw'r cyfle ystyrion cyntaf, yn hytrach na chynnwys gwybodaeth yn y datganiad deddfwriaethol blynyddol." A fydddech cystal â gwneud ymrwymiad y bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Senedd cyn gynted â phosibl eu bod naill ai wedi ceisio darpariaeth mewn Bil y DU neu eu bod yn bwriadu derbyn y cynnig gan Lywodraeth y DU i gynnwys darpariaeth ddatganoledig mewn Bil y DU? Rydym yn cydnabod nad oes angen i hyn fod ar ffurf memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, a gallai ragflaenu'r broses cydsyniad deddfwriaethol ffurfiol.

Cwestiwn 3: Byddwch yn gwybod ein bod yn monitro cysylltiadau rhynglywodraethol ac yn craffu arnynt. Am y rheswm hwnnw, mae gennym ddiddordeb ym mhwy sy'n dechrau'r cyswllt o ran defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig.

- Unwaith y byddwch wedi gweld cyfle i ddefnyddio Bil y DU, a yw'r Gweinidog perthnasol yn cysylltu â'i Weinidog cyfatebol i gychwyn trafodaethau?
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ofyn am ddarpariaethau ym Miliâu'r DU (er enghraifft, fel y digwyddodd gyda'r Bil Ardrethu Annomestig)?
- Sut mae Llywodraeth y DU yn eich gwahodd i gynnwys darpariaethau ym Miliâu'r DU?

Cwestiwn 4: Pan fydd Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid argymhell i'r Senedd y dylai gydsynio i ddefnyddio Biliau'r DU, a allwch chi nodi pa feini prawf a ddefnyddir i benderfynu a yw defnyddio Biliau'r DU i wneud deddfwriaeth mewn maes datganoledig yn fwy synhwyrol a manteisiol na phasio deddfwriaeth yn y Senedd?

Cwestiwn 5: Pwy yn Llywodraeth Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch a ddylid argymhell i'r Senedd y dylai gydsynio i ddarpariaethau'n cael eu gwneud mewn meysydd datganoledig ym Miliâu'r DU? Ydych chi'n goruchwyllo'r penderfyniadau terfynol?

Cwestiwn 6: Sawl gwaith mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod cymryd rhan ym mhroses Bil yn dilyn gwahoddiad gan Lywodraeth y DU ar y sail y byddai'n fwy priodol i'r Senedd ei ddeddfu? A allwch chi roi manylion pob achlysur?

Cwestiwn 7: Yn eich tystiolaeth, wrth siarad am Lywodraeth y DU yn deddfu, dywedoch chi, "sometimes, in the things they decide to do, there will be an opportunity that would benefit people in Wales, and where the prospects of a Bill coming in front of the Senedd are reasonably remote."

- Pam ydych chi'n ystyried ei bod hi'n briodol bod y penderfyniad cychwynnol ynghylch yr hyn a fyddai o fudd i bobl Cymru yn nwylo Llywodraeth Cymru yn unig, ac felly yn atal y Senedd rhag cael rôl tan ddiwedd y broses, pan mai'r cyfan sydd ganddi yw pleidlais derfynol?
- Mae defnyddio Bil y DU i ddeddfu ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig yn golygu osgoi gwaith craffu manwl gan y Senedd. Pam mae'n briodol atal y Senedd rhag cyflawni ei rôl ddeddfu, gan gynnwys y penderfyniad ynghylch a ddylid dirprwyo pwerau rheoleiddio i Weinidogion Cymru, a sut y gellid ystyried hynny'n synhwyrol ac yn fanteisiol?

- Pam fyddai'r siawns o Fil yn dod o flaen y Senedd yn rhesymol annhebygol, fel yr ydych wedi'i nodi, yn enwedig pan maen nhw'n ymwneud â blaenoriaethau i Lywodraeth Cymru, e.e. lles anifeiliaid, ardrethu annomestig, amddiffyn rhag aflonyddu ar sail rhyw yn gyhoeddus?

Cwestiwn 8: Sut bydd diwygio'r Senedd yn effeithio ar nifer y Biliau y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu eu cyflwyno yn y dyfodol?

Cwestiwn 9: Pa baratodau mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i gynyddu ei chapasiti deddfwriaethol ar gyfer y Seithfed Senedd?

Cwestiwn 10: Mae'r Pwyllgor yn ystyried cytundebau rhyngwladol anfasnachol, sef cytundebau yr ydych chi'n aml yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i ni amdanynt. Yn eich barn chi, sut mae'r mecanweithiau rhynglywodraethol yn gweithredu yng nghyd-destun datblygu cytundebau rhyngwladol? A oes unrhyw newidiadau yr hoffech chi eu gweld?

Cwestiwn 11: Yn y sesiwn dystiolaeth, buom yn trafod perthynas Llywodraeth Cymru â'r UE a byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer ei pherthynas â'r UE gan gynnwys mewn perthynas â gweithredu ac adolygu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. (Cofnod y Trafodion 98-105).



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon